
Campws Singleton Prifysgol Abertawe **Ionawr - Mawrth 2018**

# Taliesin



Welsh language brochure

Llyfryn Cymraeg

a digwyddiadau byw yn

## Y NEUADD FAWR

Campws y Bae Prifysgol Abertawe Ffordd Fabian

# Croeso
## i'n tymor newydd!

Mwynhewch amrywiaeth o ddawns, theatr, cerddoriaeth a ffilm yn Nhaliesin, ynghyd â rhaglen gyfoethog o gerddoriaeth a digwyddiadau llenyddol yn y Neuadd Fawr.

Y tymor hwn bydd Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un yn dychwelyd ym mis Mawrth, gyda chanolbwynt arbennig ar 'Chwedlau o Lwybr y Sidan.' Yn dilyn y rhwydweithiau masnachol hynafol o Tsieina i Fongolia a Chanolbarth Asia i'r Canoldir, bydd y ffilmiau hyn sydd wedi ennill gwobrau lu yn eich tywys ar daith sinematig drwy galon y byd.

Cynllun y Cyfeillion: Mae gennym nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ar gynllun y Cyfeillion. Bydd y rhain ar werth drwy'r swyddfa docynnau ddydd Mawrth 2 Ionawr 2018.

# Welcome
## to our new season!

Enjoy a host of dance, theatre, music and film at Taliesin, alongside a rich programme of music and literary events at the Great Hall.

This season also sees the return of WOW Wales' One World Film Festival in March, which has a special focus on 'Tales from the Silk Road'. Following the ancient trade networks from China through Mongolia and Central Asia to the Mediterranean, these award winning films will take you on a cinematic journey across the heart of the world.

Friends' scheme: We currently have a limited number of places available on our Friends' scheme. These will go on sale through the box office on Tuesday 2 January 2018.

Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin yn perthyn i Brifysgol Abertawe ac yn cael ei rheoli ganddi.
Cydnabyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel Canolfan Ranbarthol y Celfyddydau Perfformio.

Taliesin Arts Centre is owned and managed by Swansea University.
Recognised as a Regional Performing Arts Centre by the Arts Council of Wales.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

ffilm
CYMRU WALES



Taliesin



## 2-14 perfformiadau byw

DYDD GWENER 23 CHWEFROR **Little Blue Monster Productions Yn Cyflwyno** Dogs Don't Do Ballet



## 15-20 digwyddiadau darlledu

NOS WENER 19 IONAWR **Classic Spring Theatre Company yn cyflwyno A Woman of No Importance (Fel Yn Fyw 12A)**



**Mae'r tymor newydd yn cychwyn ddydd Mawrth 2 Ionawr**

**Mae tocynnau ar werth yn awr ar gyfer yr holl berfformiadau byw a darllediadau byw.**

## 29-41 sinema

NOS FAWRTH 6 CHWEFROR **Marjorie Prime (12A)**

Nos Iau 25 Ionawr 7.30yh

**Cynhyrchiad ar y cyd gan Chickenshed | Creu Cymru a ddatblygwyd gyda Gwasanaethau Cam-drin Domestig De Gwynedd**

# In the Absence of Silence

Mae pump o ferched yn cyfarfod ar y traeth mewn tref glan y môr am bicnic. Wrth i'r diwrnod fynd rhagddo, mae eu cyfeillgarwch a'r profiadau maent yn eu rhannu'n datgelu gwirioneddau dychrynllyd am gornelau cudd eu bywydau – ond drwy eu torcalon a'u poen gwelwn gwlwm cadarn o gryfder, cariad a gobaith.

Mae In the Absence of Silence yn bortread gonest ac ingol o straeon nad ydynt yn cael eu dweud yn rhy aml, ac mae'n dangos y gwirionedd cadarnhaol o ran beth sy'n bosib pan dorrir ar y tawelwch. Mae'r ddrama optimistig a phwerus yma wedi cael ei hysbrydoli gan gyfweliadau a gynhaliwyd gyda merched fel rhan o'r prosiect allgymorth, Goroeswyr.

Yr oedran a argymhellir - 15+. Mae'n cynnwys iaith gref iawn gyda themâu a all anesmwytho rhai pobl.

SP!CE

CHICKENSHED
THEATRE CHANGING LIVES

**'You leave with a feeling of hope'** ★★★★★ **ENFIELD INDEPENDENT**

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Grwpiau **£8**



**Nos Iau 1 – Nos Sadwrn 3 Chwefror 7.30yh**

**Cyd-Gynhyrchiad Theatr Pena | Taliesin Arts Centre Co-Production**

# Woman of Flowers

**by/gan Siôn Eirian**

**after/gan ddilyn Saunders Lewis**

Bydd gwasanaeth sain ddisgrifio ar gael ar gyfer y perfformiad ar y nos Sadwrn

Dydi Blodeuwedd ddim fel merched eraill. Cafodd ei chreu o flodau gwyllt gan ddewin, Gwydion, i fod yn wraig berffaith i'r tywysog rhyfelgar, Llew. Ond mae tonnau gwyllt byd natur yn cyniwair yn ei gwaed a phan gaiff y dyheadau tywyll sydd wedi'u plethu yn ei natur eu deffro, mae'r canlyniadau'n waedlyd i bawb o'i chwmpas.

Mae Theatr Pena yn dychwelyd gyda chynhyrchiad ar y cyd cyntaf y Cwmni gyda Chanolfan y Celfyddydau Taliesin, cynhyrchiad deinamig a chyfoethog yn weledol o stori hynafol iawn am frad a dialedd.

Mae Woman of Flowers yn ail-gread trawiadol o farddonol o chwedl y Mabinogi am Blodeuwedd gan yr awdur llwyddiannus o Gymru, Siôn Eirian. Ynddi mae'n cyfuno'n fedrus y ddrama fydryddol Gymraeg o'r un enw gan Saunders Lewis â deunydd gwreiddiol i greu ffantasi dywyll, hudolus.

Cynhyrchiad yn y Saesneg yw hwn.



**Hyd y cynhyrchiad yn fras:**
1 awr 20 munud (dim egwyl)

Oedran 12+

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru drwy gyfrwng y Cynllun Teithio Cenedlaethol ar gyfer Celfyddydau Perfformio. Gyda chefnogaeth ychwanegol gan Curo Advisers Limited a'u partneriaid strategol.

**£14**
Gostyngiadau **£12**
Ysgolion **£8**

Nos Sul 4 Chwefror 7.30yh

# The Railsplitters

Mae The Railsplitters yn dod â'u brand llawn egni o gerddoriaeth tir glas o Colorado, UDA gyda chwarae offerynnol o'r safon uchaf a lleisiau merched a dynion pwerus. Mae The Railsplitters wedi cael adolygiadau gwych ar y naill ochr i Fôr Iwerydd am eu talent yn ysgrifennu caneuon, eu lleisiau disglair a'u hystod gerddorol eithriadol. Mae sawl cyfrwng wedi bod yn ddylanwad arnynt, gan gynnwys gwerin/gwraidd, Americana, pop modern a roc a rôl, yn ogystal ag arloeswyr cerddoriaeth tir glas fel Bill Monroe ac Earl Scruggs.

Gyda banjo, mandolin, ffidil, gitâr a bas unionsyth, mae'r band wedi treulio llawer o'r blynyddoedd diwethaf ar daith yn mireinio eu crefft, gyda thri albwm a dwy daith helaeth yn y DU wedi'u cwblhau. Er eu bod yn gweithio gydag offerynnau band tir glas, mae The Railsplitters yn creu cerddoriaeth heb ei chyfyngu o gwbl gan draddodiad. Dyma gerddoriaeth ar gyfer y ffordd agored, y llawr dawnsio agored, a chlustiau agored – cerddoriaeth Gorllewin America, i bawb.

SP!CE

**"The Railsplitters embody two of my favorite musical elements: high quality musicianship and great original songs. They use both to make them, without a doubt, one of the best bluegrass bands to emerge in the last few years."**

**ANDY HALL, THE INFAMOUS STRINGDUSTERS**

**£12**
Gostyngiadau **£10**





Nos Wener 9 Chwefror 7.30yh

# Motionhouse

## Charge

SP!CE

**£14**
Gostyngiadau **£12**
Ysgolion **£8**

Egni yw holl nod Charge, y sioe amlgyfrwng newydd wefreiddiol gan y cwmni dawns o safon byd, Motionhouse. O'r egni trydanol sy'n tanio bywyd dynol i guriad ein calonnau a'r atgofion rydyn ni'n eu creu, mae chwe pherfformiwr yn defnyddio dawns ac acrobateg i dreiddio'n ddwfn i'r corff dynol, gan olrhain stori anhygoel yr egni yn ein bywydau ni.

Mae tafluniadau digidol yn creu byd ar y llwyfan lle mae dawnswyr a delweddau'n rhyngweithio'n ddi-dor, gan gyflwyno straeon bywyd am egni yn ein cyrff ein hunain a sut rydyn ni fel pobl yn trin egni.

Mewn cyfuniad cyffrous o gelf a gwyddoniaeth, mae Motionhouse wedi gweithio gyda phartneriaid o Brifysgol Rhydychen ar rôl trydan yn y corff dynol i ysbrydoli'r sioe. Charge yw trydedd elfen 'Trioleg y Ddaear' Kevin Finnan, gan ddatblygu ar themâu a astudiwyd yn Scattered (2009) a Broken (2013) am ein perthynas gyda dŵr a'r Ddaear.

**Nos Wener 16 Chwefror 7.30yh a**
**ddydd Sadwrn 17 Chwefror 2.30yp & 7.30yh**

**Cymdeithasau Celfyddydau Perfformio Prifysgol Abertawe yn cyflwyno**

# Guys and Dolls

**£12**
Gostyngiadau **£9**
Myfyrwyr **£7.50**

Chwedl gerddorol o Broadway yn seiliedig ar stori a chymeriadau. Mae Cymdeithasau Celfyddydau Perfformio Prifysgol Abertawe yn camu ar lwyfan Taliesin unwaith eto i berfformio eu sioe gerdd flynyddol!

Y tro hwn mae'r tîm yn mynd i'r afael â chomedi gerddorol Frank Loesser, Guys and Dolls; stori am risgiau beiddgar a rhamant i gynhesu'r galon yn Ninas Efrog Newydd. Yn cynnwys rhai o alawon mwyaf cofiadwy byd y theatr gerddorol, gan gynnwys y breuddwydiol I've Never Been in Love Before, y clasur Luck Be a Lady a'r eiconig Sit Down, You're Rocking the Boat, mae hwn yn addo bod yn gynhyrchiad cwbl wefreiddiol i gynulleidfaoedd o bob oedran.



Nos Iau 22 Chwefror 7.30yh

# Louder is Not Always Clearer

**Cynhyrchiad gan Mr and Mrs Clark**

Wedi'i Ddisgwylio a'i Berfformio gan **Jonny Cotsen**

Wedi'i Ddisgwylio a'i Gyfarwyddo gan **Gareth Clark**

Dylunio Sain **Chris Young**

Coreograffi **Catherine Bennett**

Mae Jonny yn athro, arweinydd gweithdy a chefnogwr pêl droed brwd. Mae newydd ddod yn dad. Mae Jonny yn fyddar. Dyma'r stori ddifyr a symudol, sy'n portreadu bregusrwydd dyn byddar, wedi'i greu a'i berfformio gan ddyn fyddar.

I gynulleidfa sy'n gallu clywed, mae'n brofiad emosiynol ac yn agoriad llygad. I aelodau byddar y gynulleidfa mae'r sioe'n stori gyfarwydd am gamddealltwriaeth ac ynysu. I bob cynulleidfa mae'n stori gyda hiwmor ond hefyd yn stori ingol am ymgais un dyn i ymdopi, ffitio i mewn a chael ei dderbyn.

Roedd y Clarks ar y rhestr fer am Wobr Ryngwladol Rhyddid i Lefaru Amnesty yn 2015 a chyflwynodd (F.E.A.R.) fel rhan o Gymru Yng Nghaeredin yn 2017.

#LouderVClearer

Sylwer: Mae'r perfformiad yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain, penawdau creadigol a Saesneg Llafar i'w wneud yn hygyrch i gynulleidfaoedd byddar a thrwm eu clyw. Os bydd angen cymhorthion clyw ar unrhyw aelod o'r gynulleidfa yn ystod y perfformiad, darperir clustffonau.

Wedi'i gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan y Celfyddydau Chapter, Theatr Genedlaethol Cymru.

Wedi'i gomisiynau a'i berfformio'n gyntaf yn Experimenta17.

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Ysgolion **£8**



Dydd Gwener 23 Chwefror 4.30yp

**Little Blue Monster Productions yn cyflwyno**

# Dogs Don't Do Ballet

Stori ddoniol am gi bach sydd â breuddwyd fawr iawn!

Dydi Biff ddim fel cŵn eraill. Dydi o ddim yn gwneud pethau fel pi pi ar byst lampau neu grafu ei chwain neu yfed allan o'r toiled.

Na, mae Biff yn hoffi golau'r lloer a cherddoriaeth a cherdded ar flaenau ei draed. Oherwydd dydi Biff ddim yn meddwl ei fod yn gi. Na, mae'n meddwl ei fod yn falerina! Stori ddoniol am gi bach sydd â breuddwyd fawr iawn!

Yn seiliedig ar y llyfr arobryn i blant gan Anna Kemp a Sara Ogilvie, mae'r sioe ardderchog yma i godi'r galon yn llawn cerddoriaeth, caneuon, pypedau llaw a Biff, y ci sy'n dawnsio ballet!

Cynhyrchwyr y sioe yw Little Blue Monster (Blunderbus gynt) a bydd y stori hapus a doniol yma'n gwneud i chi chwerthin yn uchel a dawnsio yn eich sedd.

Perffaith ar gyfer plant bach 3+ oed ac oedolion.

HANNER TYMOR TRÎT TALIESIN

SPICE

**£10**
Teulu **£35**



**Nos Fawrth 6 - Nos Sadwrn 10 Mawrth 7.15yh**

**Sioe Prynhawn Sadwrn 2.30yp**

**Cymdeithas Operatig Amatur Cockett yn cyflwyno**

# Hello Dolly

**Yn seiliedig ar y ddrama The Matchmaker gan Thornton Wilder**


Cyfarwyddwr **Kathryn Wheel**

Cyfarwyddwr Cerdd **Jonathan Lycett**

Llyfr gan **Michael Stewart**

Cerddoriaeth a geiriau gan **Jerry Herman**

Wedi'i sefydlu ym 1962, dechreuodd Cymdeithas Operatig Amatur y Cocyd fel Cymdeithas Gilbert a Sullivan Eglwys y Cocyd ac mae eu perfformiadau wedi ennill llawer o wobrau. Ym 1981, mentrodd y Gymdeithas i feysydd heblaw am waith Gilbert a Sullivan, gan ehangu eu repertoire a newid yr enw i Gymdeithas Operatig Amatur y Cocyd. Mae'r Gymdeithas wedi perfformio'n rheolaidd i gynulleidfaoedd Taliesin, a'u cynhyrchiad ar gyfer 2018 yw Hello Dolly, y stori hynod boblogaidd am drefnwr priodasau a'i chleient yn Efrog Newydd yn y 1890au.



**£15**

Galwch **Mrs Mary Isaac** ar **01792 774442**
**www.cockettoperatics.com**

Twitter: @swansea CAOS
Facebook: Cockett Amatuer Operatic Society (CAOS)

Tocynnau ar gael hefyd o Swyddfa Docynnau Taliesin ar 01792 602060 ac ar-lein:
**www.taliesinartscentre.co.uk**

Nos Wener 16 Mawrth - Nos Sadwrn 17 Mawrth 7.30yh

# Cymdeithas Dawns PA Sioe Flynyddol 2018

SUDANCE SOCIETY CYMDEITHAS DAWNS PA

**£10**
Gostyngiadau **£7**

Ymunwch â ni am noson o ddawns. O'r ystafell ddosbarth i hip hop, y bale i dorri, mae gennym ni i gyd! Dewch draw a chefnogi'r gymdeithas ddawns yn ein sioe flynyddol; mae pob dosbarth wedi gweithio'n anhygoel o galed i gynhyrchu darnau anhygoel o ddawns, wedi'u coreograffu gan ein hathrawon dan hyfforddiant talentog.



Hysbyseb

the EGYPT centre
y ganolfan EIFFTAIDD

Explore ancient Egyptian history through the eye of the past and be an

**Egypt Centre Volunteer**

For further details contact the Museum Volunteer Manager on
**l.s.j.howells@swansea.ac.uk**
**01792 606065**



Nos Wener 23 Mawrth 7.30yh

### Opera Dinas Abertawe

# The Barber of Seville

**gan Rossini Y canu yn Saesneg**

Cynlluniwyd gan **Gary McCann** Cyfarwyddwyd gan **Brendan Wheatley** gyda chyfeiliant gan gerddorfa **Opera Dinas Abertawe.**

Mae Opera Dinas Abertawe yn cyflwyno adfywiad o'u cynhyrchiad hynod lwyddiannus yn 2011 o Barber of Seville, opera enwocaf Rossini - opera graff sy'n llawn troeon a digwyddiadau annisgwyl.

O aria gyntaf enwog Figaro, 'Largo al factotum', i orffwylledd finale Act I, mae Barber of Seville yn adloniant afieithus. Peidiwch â cholli'r opera hwyliog yma sydd bob amser yn siriol a llon.

Mae Opera Dinas Abertawe yn enwog ledled y DU am ei pherfformiadau difyr a safonol o operâu comig a dydi'r perfformiad disglair yma ddim yn eithriad. Yn cael ei ganu yn y Saesneg, mae'r cynhyrchiad wedi'i leoli yn Seville yn y 18fed ganrif gyda gwisgoedd nodedig o'r cyfnod i ategu bwrlwm a thân athrylith cerddorol Rossini. Mae'n berffaith ar gyfer y rhai sy'n mynychu opera'n gyson a hefyd i'r rhai sydd eisiau cael profiad cyntaf o'r byd yma.

Bydd sgwrs cyn y perfformiad am yr opera a'r cynhyrchiad am 6.15pm gyda Chyfarwyddwr Artistig Opera Dinas Abertawe, Brendan Wheatley.



**"From the moment the curtain rose it was apparent this performance was going to be something special."**

**"This sparkling production was carried off at a pace that never flagged."**

**£20**
Gostyngiadau **£18**

Nos Sadwrn 24 Mawrth 7.30yh

**Aber Taiko** yn cyflwyno

# Spirit of the Dragon

**Cyfle i brofi ysbryd drymio Taiko yn y cyngerdd deinamig, pwerus ac ysbrydoledig yma.**



Mae Aber Taiko, grŵp drymio Japaneaidd Abertawe, yn falch o gael rhannu llwyfan gyda dwy ddeuawd ryngwladol, **SFTD 共鳴** a **2taiko**, ar gyfer y cyngerdd cyffrous yma.

Mae'r ddwy ddeuawd wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygiad parhaus Aber Taiko ac maent yn ychwanegu eu harddulliau nodedig at y cydweithrediad hwn.

Yn adleisio arddulliau drymio Tokyo, Fukui, San Francisco, yr Alban a Chymru, bydd "Spirit of the Dragon" yn datgelu dawn gerddorol, gosgeiddrwydd, ysbrydolrwydd a phŵer cignoeth drymio Taiko.

www.abertaiko.org.uk

**£12**
Gostyngiadau **£10**



FfOTO: SWOP Profile

Nos Fercher 28 Mawrth 7.30yh

Coleg Castell-nedd Port Talbot

# LIFT

Coreograffyddion: **Craig Coombs, Elise Addiscott Saydi Jones, Caryn Pritchard**

**£8**
Gostyngiadau **£6**

Bydd LIFT, cwmni dawns swyddogol Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, yn dychwelyd i ganolfan Taliesin eleni. Yn cael ei ddisgrifio'n aml fel cwmni sy'n 'mynd â dawnsio i uchelfennau newydd', mae ei lwyddiant yn adleisio adran ddawns hynod ffyniannus a bywiog y Coleg, sydd wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y degawd diwethaf, gan fwynhau perfformio ochr yn ochr â Ballet Cymru ac ar Lwyfan Dawns Ieuenctid Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

Mae'r cwmni'n addo dangos talentau dawnsio ifanc gorau'r coleg gan berfformio gwaith gan ddefnyddio steiliau amrywiol.



Nos Iau 29 Mawrth 7.30yh

# Juan Martín

Ystyrir bod Juan Martín yn un o'r gitaryddion Fflamenco gorau yn y byd. Mae'n perfformio ag arddull cyfansoddiadol arbennig iawn sy'n deillio o flynyddoedd maith ym Málaga ac a ddatblygwyd drwy brofiad helaeth ym Madrid, gan gynnwys cysylltiad uniongyrchol â Paco de Lucía. Ar hyd y blynyddoedd, mae wedi recordio gyda'r gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol ac artistiaid eiconig gan gynnwys Miles Davies.

Mae'r gitarydd/cyfansoddwr yn chwarae ac yn cyflwyno ei gyfansoddiadau oddi mewn i ffurfiau'r traddodiad gwych. Ategir ei arddull goeth gan chwyddo cynnil i gyfleu ei sain flamenco pur iawn: dim ond Juan a'i gitâr aruchel i'ch codi a'ch cludo chi i ddimensiwn arall – harddwch melodaidd ac angerdd rhythmig.

Viva el arte!

SP!CE

**"The master Flamenco guitarist."** THE GUARDIAN

**"A giant of the flamenco guitar tradition"** THE TIMES

**"Highly sophisticated contemporary music"** INTERNATIONAL HERALD TRIBUNE

**"The Chopin of the flamenco guitar"** BERNER NACHRICHTEN, SWITZERLAND

**£14**
Gostyngiadau **£12**



# Digwyddiadau darlledu

**Daw'r tymor hwn rhaglen amrywiol a chyffrous o berfformiadau darlledu gan National Theatr yn Fyw, y Tŷ Opera Brenhinol, a'r cyntaf o'n tymor Oscar Wilde a ddaeth i chi gan Classic Spring Theatre Company. Mae'r tocynnau ar werth nawr ar gyfer pob digwyddiad darlledu. Mae tystysgrifau yn destun newid ac amserau rhedeg yn fras. Gwiriwch wefan Taliesin neu yn Swyddfa Docynnau am ddiweddariadau.**

SGRINIO BYW PRIS Y TOCYNNAU **£14**, Gostyngiadau **£12**



**Nos Fawrth 16 Ionawr 7.15yh**

**Y Tŷ Opera Brenhinol**

## Rigoletto (Fel Yn Fyw 12A)

**Opera mewn tair act**

Cerddoriaeth: **Giuseppe Verdi,**
Cyfarwyddwr: **David McVicar**
Arweinydd: **Alexander Joel**

Llygru diniweidrwydd sydd wrth galon trasiedi ingol Verdi yng nghynhyrchiad David McVicar ar gyfer y Tŷ Opera Brenhinol.

Mae gwŷr llys mewn dillad drudfawr yn ymgolli mewn rhialtwch a chyfeddach i gyfeiliant dawnsfeydd llesmeiriol ac afieithus Verdi. Ymhlith uchafbwyntiau cerddorol niferus yr opera mae'r darn llawn asbri, 'La donna è mobile', a'r pedwarawd godidog yn Act III sy'n plethu'r lleisiau gyda'i gilydd yn hyfryd gyda'r stori'n cyflymu i'w chasgliad dinistriol.

**Hyd y cynhyrchiad:**
tua 2 awr 45 munud (gan gynnwys un egwyl)
Y canu mewn Eidaleg gydag uwchdeitlau Saesneg

**£14**
Gostyngiadau **£12**

**Nos Wener 19 Ionawr 7.15yh**

**Classic Spring Theatre Company yn cyflwyno**

# A Woman of No Importance (U)



O'r Tymor Oscar Wilde, Cwmni Theatr Classic Spring o Theatr Vaudeville yn West End Llundain.

Mae merch ifanc frwd o America, arglwydd Seisnig amheus a gŵr ifanc diniwed yn ymuno â pharti o ffyliaid a grotesques mewn tŷ. Gerllaw mae menyw'n byw ac mae ganddi gyfrinach sydd wedi'i chelu ers blynyddoedd lawer. Roedd priodas Oscar Wilde o ffraethineb deifiol a drama yn arddull Ibsen yn dychanu byd ceidwadol yn gymdeithasol y dosbarth uchaf yn Oes Victoria, gan greu llais theatrig newydd clir sy'n adleisio hyd heddiw.

**Hyd y cynhyrchiad:**
2 awr 30 munud
(gan gynnwys un egwyl)

**£14**
Gostyngiadau **£12**

**Nos Sadwrn 20 Ionawr 2018 7yh**

**National Theatre Yn Fyw**

# Young Marx
(Fel Yn Fyw 15)



Rory Kinnear yw Marx yn y gomedi newydd yma. Mae'n 1850 ac mae terfysgwr mwyaf dychrynllyd Ewrop yn cuddio yn Soho.

Does gan y chwyldroadwr tri deg dau oed ddim ceiniog o arian, mae'n anniddig ac mae'n flysig. Mae'n gyfuniad peryglus o wychder deallus, ffraethineb dychanol a difrïol ac anllythrennedd emosiynol cwbl blentynnaidd. Mae ei ysgrifennu wedi cael ei atal, ei briodas yn marw a'i ffrind Engels yn anobeithio wrth edrych arno'n gwastraffu ei athrylith. Ei unig obaith yw swydd gyda'r rheilffordd.

**Hyd y cynhyrchiad:**
tua 2 awr 40 munud
(gan gynnwys un egwyl)

**£14**
Gostyngiadau **£12**

Nos Fercher 28 Chwefror 7yh

National Theatre Yn Fyw

# Cat on a Hot Tin Roof (15)

Cyfarwyddwr: **Benedict Andrews**

Gwelwyd campwaith Tennessee Williams o'r ugeinfed ganrif yn cael ei berfformio am dymor cyfyngedig iawn yn y West End yn Llundain yn 2017. Roedd 'thrilling revival' (New York Times) Benedict Andrews yn cynnwys Sienna Miller ochr yn ochr â Jack O'Connell a Colm Meaney.

Ar noson laith ym Mississippi, mae teulu o ddeheuwyr yn dod at ei gilydd yn eu planhigfa gotwm i ddathlu pen blwydd Big Daddy. Mae'r gwres tanbaid bron mor llethol â'r celwyddau maen nhw'n eu dweud. Mae Brick a Maggie'n dawnsio o amgylch y cyfrinachau a'r tensiynau rhywiol sy'n bygwth dinistrio eu priodas. Gyda dyfodol y teulu yn y fantol, pa fersiwn o'r gwirionedd sy'n real – a pha un fydd yn ennill?

Hyd y cynhyrchiad i'w gadarnhau

**"A bold reimagining.. innovative and powerfully acted"** SUNDAY TIMES

**"A brilliant, lacerating account of the play.. unforgettable"** THE INDEPENDENT

**£14**
Gostyngiadau **£12**



PHOTO: Johan Persson

## Nos Lun 12 Mawrth 7.15yh

**Y Tŷ Opera Brenhinol**

# Carmen (Fel Yn Fyw 12A)

**Opera mewn pedair act**


Cerddoriaeth: **Georges Bizet**

Cyfarwyddwr: **Barrie Kosky**

Arweinydd: **Jakub Hrůša**

Carmen yw gwaith enwocaf y cyfansoddwr o Ffrainc, Georges Bizet, ac un o'r operâu enwocaf yn y ffurf yma ar gelfyddyd.

Cawn safbwynt ffres yn yr opera boblogaidd hon yng nghynhyrchiad hynod gorfforol Barrie Kosky a grëwyd yn wreiddiol ar gyfer Opera Frankfurt. Y cyfarwyddwr o Awstralia yw un o gyfarwyddwyr opera mwyaf llwyddiannus y byd. Ar gyfer Carmen mae wedi dyfeisio fersiwn nad yw'n draddodiadol o gwbl, gan gynnwys cerddoriaeth sydd wedi'i hysgrifennu gan Bizet ar gyfer y sgôr, ond cerddoriaeth nad yw'n cael ei chlywed fel rheol, gan roi llais newydd i gymeriad canolog cwbl ryfeddol yr opera.



**Hyd y cynhyrchiad:**
tua 3 awr 20 munud
(gan gynnwys un egwyl)
Y canu mewn Ffrangeg
gydag uwchdeitlau Saesneg

**£14**
Gostyngiadau **£12**

## Nos Fawrth 20 Mawrth 7.15yh

**Classic Spring Theatre Company yn cyflwyno**

# Lady Windermere's Fan

(Fel Yn Fyw 12A)

Mae comedi Oscar Wilde a gyfarwyddwyd gan Kathy Burke a gyda Jennifer Saunders yn serennu yn dod i'r West End fel rhan o dymor blwyddyn o Wilde yn y Vaudeville.

Mae'n ddiwrnod parti pen blwydd Lady Windermere ac mae popeth mewn trefn berffaith. Nes i'w ffrind, Lord Darlington, blannu hedyn o amheuaeth. Ydi ei gŵr yn cael perthynas tu ôl i'w chefn? Ac a fydd y fenyw arall yn y parti o ddifrif? Mae un o ddramâu mwyaf poblogaidd a ffraeth Wilde yn edrych ar amwysedd moesoldeb y dosbarth uchaf a sefyllfa fregus merched mewn cymdeithas tua diwedd Oes Victoria.

**Hyd y cynhyrchiad yn fras:** 2 awr 30 munud
(gan gynnwys egwyl)

**£14**
Gostyngiadau **£12**



Nos Iau 22 Mawrth 7yh

National Theatre Yn Fyw

# Julius Caesar (Fel Yn Fyw 12A)

Mae Ben Whishaw, Michelle Fairley, David Calder a David Morrissey yn serennu yng nghynhyrchiad Nicholas Hytner yn fyw o The Bridge Theatre, Llundain.

Mae Caesar yn dychwelyd yn fuddugoliaethus i Rufain ac mae'r bobl yn tyrru allan o'u cartrefi i ddathlu. Wedi dychryn o weld poblogrwydd yr unben, mae'r giwed elitaidd ddysgedig yn cynllwynio i'w ddymchwel. Ar ôl ei lofruddiaeth, mae'n rhyfel cartref ar strydoedd y brifddinas.

Caiff y gynulleidfa ei hyrddio i ganol y parti stryd sy'n cyfarch dychweliad Caesar, y gyngres sy'n dyst i'w lofruddiaeth, y rali sy'n ymgynnull ar gyfer ei angladd a'r anhrefn sy'n ffrwydro yn dilyn hynny.

National Theatre Live

Hyd y cynhyrchiad i'w gadarnhau

**£14**
Gostyngiadau **£12**





Dydd Gwener 6 Ebrill 4.30yp

## The Amazing Bubble Man

**£10**
Teulu **£35**



Nos Iau 19 Ebrill 7.30yh

Cyd-gynhyrchiad Dirty Protest, Chapter a Theatr Torch

## Lightspeed from Pembroke Dock

Gan Mark Williams

**£12**
Gostyngiadau **£10**



Nos Wener 20 Ebrill 7.30yh

## Jon Boden

**£19**
Gostyngiadau **£17.50**



Nos Iau 26 Ebrill 7.30yh

Dydd Gwener 27 Ebrill 1yp - Darganfod Dawns

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

## Terra Firma

Coreograffi gan Caroline Finn, Marcos Morau a Mario Bermudez Gil

**£14**
Gostyngiadau **£12**
Ysgolion **£8**

THE GREAT HALL
**Swansea University**

Y NEUADD FAWR
**Prifysgol Abertawe**



Mae lleoliad mwyaf newydd Prifysgol Abertawe, y Neuadd Fawr, yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol i ategu'r rhaglen fywiog sy'n cael ei chyflwyno gan Ganolfan y Celfyddydau Taliesin. Ewch i'n gwefan ni i gael mwy o wybodaeth am ein holl ddigwyddiadau celfyddydol www.taliesinartscentre.co.uk

# Y NEUADD FAWR

Campws y Bae Prifysgol Abertawe Ffordd Fabian




Nos Iau 4 Ionawr 7.30yh

**Cerddorfa OCC**

# A Night in Vienna

Cyflwynir a Chyfarwyddir o'r Fiolin gan **David Adams**

Unawdydd Corn: **Angus West**

Mae Cerddorfa OCC yn ôl yn y Neuadd Fawr ar gyfer ei hail gyngerdd. Rydym yn gadael yr arweinydd adref ac mae'r cerddorion a'r gynulleidfa'n ymgynnull am y noson gyda David Adams, Llywiwr a Chyngerddfeistr Cerddorfa OCC.

Mae'r cyngerdd yn cynnwys un o weithiau enwocaf Mozart, yr Horn Concerto No 4. O amgylch y ddarpariaeth gyffrous hon, bydd y Neuadd Fawr yn adleisio i seiniau rhai o waltzes a polkas enwocaf neuaddau dawns hardd Vienna.

Yn agor gydag agorawd wych i Der Freischutz gan Weber, mae'r noson yn cychwyn yn gampus. Bydd hoff waltzes fel Wine, Women and Song, The Blue Danube a Gold and Silver, ochr yn ochr â polkas Tritsch-Tratsch, Thunder and Lightning a Champagne a'r Radetsky Mawrth fawreddog, yn addurno'r ail hanner byrlymus, ochr yn ochr â datganiadau sy'n llai cyfarwydd.

Fel arfer, mae hyn i gyd yn siŵr o'ch gwneud yn ysgafndroed unwaith eto ar ôl gwledda dros y Nadolig.

**£20**
Gostyngiadau **£15**
Myfyriwr PA **£5**




PHOTO: Eric Richmond



PHOTO: Eric Richmond

Nos Sadwrn 10 Chwefror 7.30yh

# Nicholas Daniel a'r Haffner Ensemble

**Nicholas Daniel** Obo

**Joy Farrall** Clarinét

**Emer McDonagh** Ffliwt

**Sarah Burnett** Baswn

**Martin Owen** Corn

Mae'r Haffner Wind Ensemble yn un o ensembles siambr mwyaf blaenllaw Prydain ac un o'r pedwarawdau chwyth mwyaf profiadol. Mae ehangder eu profiad cerddorol fel unigolion, a'u gwaith helaeth gyda'i gilydd, yn creu ffresni a bywiogrwydd mewn perfformiadau sydd nid yn unig yn rhagori yng nghlasuron y repertoire chwyth ond hefyd mewn cerddoriaeth gyfoes.

Mae repertoire yr Haffner Wind Ensemble yn cynnwys llawer o glasuron safonol yn ogystal â gweithiau cyfoes. Bydd eu cyngerdd yn cynnwys Serenade No. 10 for Winds, the 'Gran Partita' gan Mozart, yn ogystal â gwaith gan Beethoven; Rondino in E flat major, WoO 25 a Dvořák: Serenade op.44.

I'w glywed yn rheolaidd ar BBC Radio 3 a Classic FM ac yn teithio'n helaeth i wyliau mawr ledled y DU a thramor, gan gynnwys Cheltenham, Caerfaddon, Stockholm a'r Proms, mae'r ensemble yn mwynhau enw da am osod y clasurol a'r cyfoes ochr yn ochr â'i gilydd, am hyrwyddo cerddoriaeth gyfoes, am ddawn gerddorol eithriadol ac, yn fwy na dim, am ei berfformiadau cynnes a difyr.

**"Haffner Wind ensemble is as flexible of tone as it is of instrumental line-up"** THE GUARDIAN

**"A bravura display from Daniel"** THE OBSERVER

**"Nicholas Daniel, one of the greatest oboists of our time"** THE HERALD

**£15**
Gostyngiadau **£12**
Dan 18 oed a myfyrwyr **£5**
Seddau heb eu cadw

# Duo Kolarova-Møldrup

**Galya Kolarova** piano

**Toke Møldrup** fiolin-soddgrwth

Wedi ennill gwobrau mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol amrywiol, mae'r pianydd a aned ym Mwlgaria, Galya Kolarova, yn mwynhau gyrfa ryngwladol lwyddiannus ac mae wedi perfformio fel unawdydd a cherddor siambr mewn neuaddau cyngerdd a gwyliau mawr ledled Ewrop, Asia a'r Dwyrain Canol. Yn brif chwaraewr soddgrwth gyda'r Copenhagen Philharmonic, yn ddiweddar, derbyniodd Toke Møldrup Wobr Anrhydeddus y Frenhines Ingrid ac, yn ystod 20 mlynedd ei yrfa hyd yma, mae wedi perfformio fel unawdydd gyda cherddorfeydd symffoni rhyngwladol.

Gyda diddordeb brwd mewn datblygu repertoire y soddgrwth, mae wedi cyflwyno premieres o weithiau gan gyfansoddwyr cyfoes, fel y premiere Ewropeaidd o concerto John Williams i'r soddgrwth a concerto Geoffrey Gordon i'r soddgrwth.

Bydd y rhaglen yn cynnwys dwy sonata hyfryd ar gyfer y sielo gan gyfansoddwyr Rwsieg, ynghyd â gwaith diweddar rhagorol gan y cyfansoddwr Geoffrey Gordon, wedi'i gomisiynu gan Toke Møldrup a'i ysbrydoli gan The Tempest.

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Dan 18 oed a myfyrwyr **£5**
Seddau heb eu cadw









Nos Sul 25 Chwefror 7.30yh

## National Youth Jazz Orchestra

yn cyflwyno **What is Hip?**

Mae'r National Youth Jazz Orchestra yn gerddorfa ddisglair ar gyfer cerddorion jazz proffesiynol ifanc gorau'r DU, gan gyfuno adran rhythm galed a llu o unawdwyr eithriadol dalentog, i sicrhau'r gorau un i chi mewn jazz band mawr Prydeinig. O dan Gyfarwyddyd Artistig Mark Armstrong, mae'r gerddorfa 23 darn yn perfformio tua 40 o gyngherddau y flwyddyn yn genedlaethol ac yn rhynglwadol. Y nod yw ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gerddorion jazz ifanc gyda gwaith addysgol ble bynnag maent yn teithio.

Yn ystod 52 mlynedd ei hoes, mae NYJO wedi helpu i lansio gyrfaoedd llawer o gerddorion jazz enwocaf y wlad, gan gynnwys Guy Barker, Amy Winehouse, Mark Nightingale a Laura Jurd. Mae'r rhaglen 'What is Hip?' heno'n gerddoriaeth i wneud i chi symud. O'r Pedwardegau i'r Mileniwm newydd, mae alawon clasurol gan Duke Ellington i'w clywed ochr yn ochr â chaneuon mawr Kylie Minogue, Kool & The Gang a Tower of Power ar y daith eclectig hon drwy hanes y grŵf.

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Dan 18 oed a myfyrwyr **£5**




Dydd Sul 4 Mawrth 2yp

## The Wihan Quartet

**Leos Cepicky** violin
**Jan Schulmeister** violin
**Jakub Cepicky** viola
**Ales Kasprik** cello

Mae'r Pedwarawd Wihan wedi'i ddisgrifio fel a ganlyn: 'Un o'r pedwarawdau gorau yn y byd heddiw' (International Record Review)


Wedi'i ffurfio ym 1985, mae'r Pedwarawd wedi datblygu enw rhagorol am ddehongli treftadaeth Tsiecaidd eu gwlad frodorol, a llawer o'r campweithiau clasurol, rhamantus a modern sy'n ffurfio repertoire y pedwarawd llinynnol.

Bydd rhaglen perfformiad y prynhawn yn cynnwys: Beethoven: Pedwarawd Llinynnol yn C Leiaf Op18 Rhif 4, Janáček: Pedwarawd Llinynnol Rhif 2 'Llythyron Mynwesol' ac, yn olaf, Pedwarawd Llinynnol Op51 yn Eb 'Slafonig' gan Dvořák.

**"This is the finest recorded performance I have encountered to date"** BBC MUSIC MAGAZINE OF DVOŘÁK OP.61 RECORDING

**"This is playing of the highest quality from the Czech quartet."** THE SUNDAY TIMES

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Myfyriwr PA **£5**
Seddau heb eu cadw




Dydd Sul 11 Mawrth 2yp

**Mark Swartzentruber, Piano**

# Scarlatti Four Sonatas

**Beethoven Sonata i'r Piano yn F leiaf Op 57 Appassionata**

**Chopin Two Nocturnes, Op. 55**

**Chopin Barcarolle, Op 60**

**Debussy Estampes (1903)**

Mae Mark Swartzentruber yn cynnig prynhawn o weithiau piano mawr. Mae'r datganiad yn agor gyda dychymyg a chymeriad dyfeisgar pedair o Sonatas Domenico Scarlatti ac mae'n parhau wedyn â Sonata 'Appassionata' eithriadol bwerus ac egnïol Beethoven. Mae dwy hwyrgan huawdl a dwys Chopin yn dechrau'r ail hanner ac wedyn ei Barcarolle, Op 60. Daw'r rhaglen i ben gyda thirluniau pefriol Estampes gan Debussy.

Mae recordiadau Mark Swartzentruber gyda Sony a Solo Records wedi cael adolygiadau rhagorol yn y wasg gerddoriaeth ryngwladol ac maent yn cadarnhau ei enw da fel artist o'r calibr gorau. Mae ei ymddangosiadau mewn cyngherddau wedi cynnwys Neuadd Wigmore a Neuadd y Frenhines Elizabeth yn Llundain yn ogystal â Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd. Mae wedi darlledu ar BBC Radio 3 a Radio 4.

**"His playing leaves you once more in awe of Debussy."** GRAMOPHONE

**"Breathtaking"** THE GUARDIAN

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Dan 18 oed a myfyrwyr **£5**
Seddau heb eu cadw

Nos Wener 16 Mawrth 6.30yh

# Y Sinffonia Gymreig a Cherddorfa Prifysgol Abertawe

Mae'r gerddorfa o fri, y Sinffonia Gymreig, yn dychwelyd i'r Neuadd Fawr i berfformio ar y cyd â Cherddorfa Prifysgol Abertawe. Byddant yn cyflwyno rhaglen o ffefrynnau clasurol a cherddoriaeth o'r ffilmiau, dan arweiniad Mark Eager a Dr Ian Rutt.

Mae cydweithio â'r Sinffonia Gymreig yn rhan bwysig o'r strategaeth ar gyfer cerddoriaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Mae perfformio ochr yn ochr â cherddorion proffesiynol yn rhoi profiad dysgu gwych i aelodau Cerddorfa'r Brifysgol, sy'n helpu i gynyddu eu hyder a'u doniau cerddorol yn gyffredinol. Roedd cyngerdd y llynedd yn dystiolaeth wych o lwyddiant y dull hwn ac mae'r cyngerdd eleni'n addo ailadrodd y llwyddiant hwnnw.

Hyd y cyngerdd: c. 1awr, dim egwyl

**£12**
Gostyngiadau **£10**
Myfyriwr PA **£5**
Seddau heb eu cadw

the welsh sinfonia
y sinffonia gymreig



# Sinema

**PRISIAU TOCYNNAU SINEMA £7.75**, Gostyngiadau **£6.50** Gostyngiad myfyriwr **£6**
Dechreuir derbyn archebion ar gyfer y tymor newydd **ddydd Mawrth 2 Ionawr.**

Rhowch wybod i'r Swyddfa Docynnau ar adeg archebu os hoffech chi ddefnyddio'r cyfleusterau disgrifio sain neu chwyddo sain. Bydd tystysgrifau wedi eu harddangos lle bo modd. **Am fanylion y penderfyniadau dosbarthu, a gwybodaeth bellach am gynnwys ffilm, ewch i www.bbfc.co.uk.** Ewch i'n gwefan am ddiweddariadau ar dystysgrifau a hyd y sesiynau. **Cofiwch ganiatáu digon o amser ar gyfer parcio. Ceir map ar gyfer parcio gyda'r nos ac ar y penwythnosau ar dudalen 44.**



Nos Lun 15 Ionawr 7.30yh

## The Glass Castle (12A)

Cyf: **Destin Daniel Cretton**
UDA 2017 2awr 7munud
Brie Larson, Woody Harrelson, Naomi Watts

Stori nodedig am gariad diamod, yn seiliedig ar gofiant llwyddiannus Jeannette Wall. Rhaid i bedwar brawd a chwaer ddysgu gofalu amdanynt eu hunain wrth i'w rhieni rhydd iawn eu hysbryd eu hysbrydoli a'u cyfyngu ar yr un pryd. Pan nad oedd yn feddw, roedd tad carismataidd y plant yn dal eu dychymyg ac yn eu haddysgu am ffiseg, daeareg a sut i wynebu bywyd heb ofn. Yn feddw, roedd yn anonest a dinistriol. Roedd eu mam yn casáu'r syniad o bopeth domestig a doedd hi ddim eisiau ysgwyddo'r gwaith o fagu teulu. Dan ddylanwad natur wyllt a llawen ei thad hynod ddi-werth, daw Jeannette o hyd i benderfyniad tanllyd i greu bywyd llwyddiannus ar ei thelerau ei hun.

**"The adaptation is a powerful, poignant tale of resilience, strength, compassion and forgiveness that will have you in tears."**
**FRESH FICTION**

Nos Fercher 17 Ionawr 7.30yh

## **The Snowman** (15)

Cyf: **Tomas Alfredson**
Y DU, Sweden, UDA 2017 1awr 59munud
Michael Fassbender, Rebecca Ferguson, Charlotte Gainsbourg

Pan mae prif dditectif sgwad troseddu elitaidd yn ymchwilio i ddiflaniad dioddefwr ar eira cyntaf y gaeaf, mae'n ofni bod llofrudd cyson ar waith unwaith eto. Gyda help aelod newydd gwych o'r sgwad, rhaid i Dditectif Harry Hole gysylltu degawdau o lofruddiaethau heb eu datrys yn y gobaith o gael y gorau ar y dieflig 'Snowman Killer' cyn yr eira nesaf.

**"The bestseller about a maverick cop on the trail of a serial killer reaches the big screen in a gruesome but watchable adaptation from Tomas Alfredson."**
**THE GUARDIAN**





Nos Lun 22 Ionawr 7.30yh

## **Breathe** (12A)

Cyf: **Andy Serkis**
Y DU, UDA 2017 1awr 58munud
Andrew Garfield, Claire Foy, Hugh Bonneville

Stori serch ysbrydoledig a gwir Robin a Diana Cavendish, cwpwl anturus sy'n gwrthod ildio yn wyneb afiechyd dinistriol. Ar ôl cael polio yn 28 oed, mae Robin Cavendish yn gaeth i wely mewn ysbyty a dim ond misoedd sydd ganddo i fyw. Gyda chymorth ei wraig Diana a'i brodyr sy'n efeilliaid, a syniadau arloesol y dyfeisiwr Teddy Hall, daw Cavendish o ward yr ysbyty ac mae'n ymrwymo gweddill ei fywyd i helpu cyd-gleifion a'r anabl. Dathliad i gynhesu'r galon o bosibiliadau dynol ac mae'n nodi ymgais gyntaf Andy Serkis fel cyfarwyddwr.

**"A respectful tribute to the extraordinary life of a couple that can motivate many with their story and strength."** **CINEPREMIERE.COM**

Nos Fawrth 23 Ionawr 7.30yh

## Ingrid Goes West (15)

Cyf: **Matt Spicer** UDA 2017 1awr 38munud
Aubrey Plaza, Elizabeth Olsen

Yn dilyn marwolaeth ei mam a chyfres o anawsterau y mae hi ei hunan ar fai amdanynt, mae merch ifanc, Ingrid Thorburn, yn dianc rhag diflastod ei bywyd drwy symud i'r Gorllewin i ddod yn ffrindiau gyda'i hobsesiwn ar Instagram, merch o Los Angeles o'r enw Taylor Sloane. Ar ôl i gwlwm cyflym iawn gael ei greu rhwng y ddwy ffrind annhebygol iawn, mae'r craciau'n dechrau ymddangos ym mywyd ffug y ddwy, gyda chanlyniadau maleisus o ddoniol.

Yn seiliedig ar berfformiad cyfareddol gan Aubrey Plaza, mae Ingrid Goes West (enillydd Gwobr Sgriptio Waldo Salt yn Sundance) yn gomedi dywyll greulon sy'n dychanu byd modern y cyfryngau cymdeithasol ac yn profi nad yw bywyd #perffaith mor arbennig â hynny wedi'r cwbl.

**"An appealing mixture of black-hearted comedy and plaintive social satire."** EXPRESS





Nos Fercher 24 Ionawr 7.30yh

## Call Me By Your Name (15)

Cyf: **Luca Guadagnino**
UDA, Yr Eidal, Brasil, Ffrainc 2017 2awr 12munud Armie Hammer, Timothée Chalamet
Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg gydag isdeitlau

Mae Call Me By Your Name yn stori ynhwyrus a rhagorol am gariad cyntaf, yn seiliedig ar nofel arobryn André Aciman. Mae'n haf 1983 ac mae Elio Perlman, sy'n 17 oed aeddfed iawn, yn treulio'r dyddiau gyda'i deulu yn eu fila o'r 17eg ganrif yn Lombardy, Yr Eidal. Yn fuan mae'n cyfarfod Oliver, myfyriwr doethuriaeth hardd sy'n gweithio fel interm i dad Elio. Yng nghanol ysblander heulog eu hamgylchedd, mae Elio ac Oliver yn darganfod harddwch byrbwyll dyhead sy'n deffro yn ystod yr haf, a fydd yn newid eu bywydau am byth.

**"Gorgeous, lyrical story of first love and desire."**
DEADLINE HOLLYWOOD



Nos Lun 29 Ionawr 7.30yh


## Happy End (15)

Cyf: **Michael Haneke**
Ffrainc 2017 1awr 48munud
Jean-Louis Trintignant, Isabelle Huppert, Mathieu Kassovitz, Toby Jones
Ffrangeg gydag isdeitlau

Mae'r cyfarwyddwr arobryn, Michael Haneke, yn dychwelyd gyda dychan brathog am werthoedd teuluoedd bourgeois sydd wedi'u lleoli yng nghysgod argyfwng ffoaduriaid Ewrop. Mae Happy End yn gomedi dywyll, dreiddgar am deulu y dosbarth canol sy'n ddall i ddioddefaint pobl yn y gwersylloedd i fudwyr o amgylch tref borthladd Calais. Wedi'i henwebu am y Palme d'Or yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes 2017, mae'r ffilm yma'n cynnwys holl rinweddau steil unigryw o lym ac anghydymdeimladol Haneke.

**"Vexing, perplexing and brilliant."** **THE FINANCIAL TIMES**

**"Haneke remains such a master."** **PASTE MAGAZINE**



Nos Lun 5 Chwefror 7.30yh

## The Killing of a Sacred Deer (15)

Cyf: **Yorgos Lanthimos**
Iwerddon, Y DU, UDA 2017 2awr 1munud
Nicole Kidman, Colin Farrell, Alicia Silverstone

Mae Steven, llawfeddyg carismataidd, yn cael ei orfodi i wneud aberth tu hwnt i amgyffred wedi i'w fywyd ddechrau chwalu'n ddarnau, ar ôl i ymddygiad plentyn ifanc yn ei arddegau y mae wedi'i gymryd dan ei adain droi'n sinistr.

Gan ei wahodd i'w gartref, mae byd y meddyg yn dechrau anesmwytho ac mae ei deulu'n cael salwch dirgel. Mae nod bwriadol Martin yn dod yn fygythiol o glir pan mae'n herio Steven am drosedd a gyflawnodd flynyddoedd maith yn ôl, trosedd a fydd yn chwalu ei ddedwyddwch domestig am byth.

**"one of the most unforgettable films of the year"**
**ROGER EBERT**



Nos Fawrth 6 Chwefror 7.30yh

## Marjorie Prime (12A)

Cyf: **Michael Almereyda**
UDA 2017 1awr 39munud
Hannah Gross, Jon Hamm, Geena Davis

Mae Marjorie, sy'n wyth deg chwech oed, yn treulio ei dyddiau olaf o salwch gyda fersiwn cyfrifiadurol o'i gŵr sydd wedi marw, gan ddibynnu ar wyboddaeth ganddi hi a'i theulu i ddatblygu dealltwriaeth gymhlethach o'i hanes. Wrth i'w rhyngweithio ddyfnhau, mae'r teulu'n dechrau datblygu straeon amrywiol am eu bywydau, o gael cyfle i ailadeiladu gorffennol poenus yn aml. Mae'r ffilm yn gorfodi ni i wynebu'r cwestiwn – Pe baem yn cael cyfle, sut byddem yn dewis ailadeiladu'r gorffennol a beth fyddem yn penderfynu ei anghofio?

**"Melancholy sci-fi offers poignant tale of love after life."** THE GUARDIAN




Nos Fercher 7 Chwefror 7.30yh

## The Florida Project (15)

Cyf: **Sean Baker**
UDA 2017 1awr 51munud
Brooklynn Prince, Bria Vinaite, Willem Dafoe

Portread hynod ingol a chofiadwy o blentyndod. Wedi'i lleoli ar ddarn o briffordd y tu allan i baradwys dychmygus Disney World, mae ffilm The Florida Project yn dilyn hanes Moonee a'i mam wrthryfelgar Halley yn ystod haf cyfan.

Mae'r merch fach chwech oed aeddfed iawn Moonee yn creu antur gyda'i ffrindiau ragtag a dod yn ffrindiau da â'i mam wrthryfelgar ond ofalus iawn. Heb yn wybod i Moonee, mae ei ffantasi'n cael ei chefnogi gan aberth mawr ei mam, sy'n cael ei gorfodi i ystyried posibiliadau cynyddol beryglus er mwyn darparu ar gyfer ei merch.

**"A wondrous child's-eye view of life on the margins."** THE GUARDIAN



Nos Lun 19 Chwefror 7.30yh

## Film Stars Don't Die in Liverpool (15)

Cyf: **Paul McGuigan**
Y DU, UDA 2017 1awr 45munud
Jamie Bell, Annette Bening, Vanessa Redgrave

Mae'r actores o Hollywood, Gloria Grahame, yn dod o hyd i ramant a hapusrwydd gyda dyn iau, ond mae ei bywyd yn newid am byth pan gaiff ddiagnosis o ganser y fron yn y 1970au.

Yn seiliedig ar gofiant Peter Turner, mae'r ffilm yn dilyn y berthynas chwareus ond angerddol rhwng Turner a'r actores egsentrig a gipiodd wobr Academi, yn Lerpwl yn 1978. Mae'r perthynas fywiog yn datblygu'n gyflym i fod yn berthynas ddyfnach. Mae eu hangerdd a'u cariad at fywyd yn cael eu profi i'r eithaf gan ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

**"Brittle and insecure, yet also steely and magnetic, Bening's performance is full of nuance."** TIME OUT



Nos Fawrth 20 Chwefror 7.30yh

## Battle of the Sexes (12A)

Cyf: **Jonathan Dayton, Valerie Faris**
UDA 2017 2awr 1munud Emma Stone, Steve Carell, Andrea Riseborough

Yn sgil y chwyldro rhywiol a'r cynnydd mewn mudiadau i ferched, daeth y stori wir am y gêm dennis yn 1973 rhwng rhif un merched y Byd, Billie Jean King, a chyn-bencampwr y dynion, Bobby Riggs, yn un o'r digwyddiadau chwaraeon ar y teledu a wyliwyd gan y nifer mwyaf o bobl yn y byd.

Ochr yn ochr â hybu cydraddoldeb, roedd King hefyd yn cael anhawster gydag ymdopi â'i rhywioldeb ei hun. Roedd Riggs yn cael anhawster gyda gamblo, ar draul ei deulu. Gyda'i gilydd, cafwyd gan Billie a Bobby sioe ddiwylliannol a oedd yn adleisio ymhell y tu hwnt i'r cwrt tennis ac sy'n parhau i adleisio hyd heddiw.

**"a seductively enjoyable, smart and well-acted film."** THE GUARDIAN

Nos Fercher 21 Chwefror 7.30yh

## Suburbicon (15)

Cyf: **George Clooney**
UDA 2017 1awr 45munud
Matt Damon, Julianne Moore, Oscar Isaac

Mae Suburbicon yn gymuned swbwrbaidd, dawel a delfrydol gyda chartrefi fforddiadwy a lawntiau taclus – lle perffaith i fagu teulu ac, yn haf 1959, mae'r teulu Lodge yn gwneud hynny. Ond mae'r arwyneb heddychlon yn celu realiti dychrynllyd, ac mae'n rhaid i'r gŵr a'r tad, Gardner Lodge, ymchwilio i is-gerrynt tywyll y dref o frad, twyll a thrais.

**"Watchable, lively, intricately designed."**
THE GUARDIAN



Nos Lun 26 Chwefror 7.30yh

## Bill Viola: The Road to St Paul's (PG)

Cyf: **Gerald Fox**
Y DU 2017 1awr 22munud

Ffilm ddogfen fanwl am artist fideo gorau'r byd, Bill Viola.

Mae Bill Viola: The Road to St Paul's yn bortread pwerus ac ingol o artist fideo mwyaf dylanwadol y byd, ei wraig a'u cydweithiwr agos, Kira Perov.

Mae'r ffilm yn cofnodi siwrnai deuddeg mlynedd y cwpwl i greu dau fideo parhaol ar gyfer Cadeirlan St Paul's yn Llundain. Mae Martyrs (2014) a Mary (2016) yn symbol o ddirgelion dwys bodolaeth ddynol. Mae'r ffilm yn dilyn stori nodedig Viola wrth iddo greu'r comisiwn celf cyntaf o'i fath i gael ei osod yng ngofod crefyddol enwocaf Prydain.

**"Come all ye video art converts."** THE GUARDIAN






Nos Fawrth 27 Chwefror 7.30yh

## Three Billboards Outside Ebbing, Missouri (15)

Cyf: **Martin McDonagh**
UDA, Y DU 2017 1awr 55munud
Frances McDormand, Woody Harrelson, Sam Rockwell

Drama gomig dywyll gan enillydd Gwobr Academi, Martin McDonagh (In Bruges). Wedi i fisoedd fynd heibio heb ddrwgweithredwr yn achos llofruddiaeth ei merch, mae Mildred Hayes yn cymryd cam beiddgar, gan baentio tri arwydd yn arwain i mewn i'w thref gyda neges ddadleuol arnynt wedi'i chyfeirio at William Willoughby, prif swyddog heddlu'r dref sy'n uchel ei barch. Pan mae dirprwy'r Prif Swyddog, sef Swyddog Dixon, yn dod yn rhan o'r mater, mae'r frwydr rhwng Mildred a heddlu Ebbing yn gwaethygu.

**"it's wildly violent, brilliantly funny and deeply moving. And so smart."** TORONTO SUN

Screen Diversity — Recognising the Quality of Difference

Awarding funds from THE NATIONAL LOTTERY®

ffilm CYMRU WALES

Dydd Mawrth 13 - Dydd Iau 15 Mawrth

## Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un

Bydd Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un, ychwanegiad poblogaidd iawn at raglen ffilmiau Taliesin, yn dychwelyd ym mis Mawrth â phwyslais arbennig ar 'Straeon o'r Ffordd Sidan'. Gan ddilyn y rhwydweithiau masnachu hynafol, o Tsieina drwy Fongolia a Chanolbarth Asia i'r Canoldir, bydd y ffilmiau arobryn hyn yn eich tywys ar daith sinematig ar draws canol y byd.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys ffilm hyfryd o Kyrgyzstan am deulu o fridwyr ceffylau, Heavenly Nomadic; a The Gulls, a leolir ar lannau Môr Caspia, yng nghanol cymysgedd diwylliannol trawiadol Kalmkyia, yr unig wlad yn Ewrop lle mai Bwdhaeth yw prif grefydd y wlad.

F RATED

Y system newydd o raddio ffilmiau sy'n amlygu ffilmiau wedi'u gwneud gan fenywod ac sy'n cynnig rolau canolog i fenywod. O'i chymharu â ffilmiau o Brydain ac America, mae gan sinema'r byd gyfran uwch o lawer o fenywod ymysg y cyfarwyddwyr a'r ysgrifenwyr ac mae'n cynnig cyfran uwch o rolau pwysig i fenywod. Mae Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un yn falch o gefnogi eu gwaith.

**Gostyngiad o 10% wrth i chi brynu tri thocyn neu fwy o raglen Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un Taliesin.**

Nos Fawrth 13 Mawrth 6yh

# Heavenly Nomadic
(tyst i'w gadarnhau)

Cyf: **Mirlan Abdykalykov**
Krygyzstan 2015 1awr 21munud Kyrgyz gydag isdeitlau Tabyldy Aktanov, Jibek Baktybekova, Taalaikan Abazova

Mae tair cenhedlaeth teulu o grwydrwyr yn byw ym mynyddoedd uchel ac anghysbell Kyrgyzstan yn magu ceffylau. Mae eu bywyd ymddangosiadol ddelfrydol wedi bod yn anodd ers i dad Umsunai ifanc farw. Ar ôl gwrando ar straeon ei thaid, Tabyldy, mae hi'n sicr yn awr bod ei thad wedi cael ei aileni fel aderyn sy'n gwylio drostynt. Stori melys llawn awyrgylch am draddodiadau crwydrol sy'n prysur ddiflannu o fynyddoedd godidog Canolbarth Asia.

**"a visually majestic debut"** VARIETY

**Enillydd Gwobr FEDEORA yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Karlovy Vary 2015**

**Ymgais Kyrgyzstan yn yr Oscars yn 2016**





Nos Fawrth 13 Mawrth 8yh

# The Square (15)

Cyf: **Ruben Ostland**
Sweden-Yr Almaen-Ffrainc-Denmarc
2017 2awr 22munud Swedeg gydag isdeitlau
Claes Bang, Elisabeth Moss, Dominic West

Mae'r ffilm ddychan swreal a deifiol o ddoniol yma'n mynd ati'n fedrus i ddatgymalu'r elfennau ymhonnus mewn celf safonol. Yn guradur uchel ei barch mewn amgueddfa celf gyfoes, mae Christian yn dyheu am dynnu sylw gydag arddangosfa gan wahodd y cyhoedd i 'The Square', ble cânt eu hannog i ymddwyn yn gyfrifol. Ddyddiau cyn yr agoriad, mae Christian yn cael profiad annymunol ac nid yw'n gallu anghofio amdano. Ffilm feiddgar, bryfociol a gafaelgar.

**"Moments of pure showstopping freakiness [...] This is high wire cinema"** ★★★★ THE GUARDIAN

**Enillydd Palme d'Or yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes yn 2017**

Nos Fercher 14 Mawrth 6yh

## **The Gulls** (tyst i'w gadarnhau)

Cyf: **Ella Manzheeva** Russia-Kalmykia 2015 Rwsia-Kalmykia 2015 1awr 27munud gydag isdeitlau Evgeniya Mandzhieva, Sergey Adianov, Evgeny Sangadzhiev

Gyda Kalmykia fodern (yr unig wlad yn Ewrop lle mae Bwdhaeth yn grefydd genedlaethol) yn gefndir i'r ffilm, mewn tref fechan wedi'i gwasgu ar wastatir prin glannau rhewllyd Môr Caspian, cawn stori hunllefus Elza, gwraig fregus i bysgotwr sy'n dyheu am ddianc rhag ei bywyd caled a'i gŵr creulon. Gyda'i llygad craff a'i rheolaeth sicr ar ei deunydd, mae Ella Manzheeva wedi creu cyfuniad cyfareddol o realaeth syml a drama noir llawn tyndra, sy'n ein hatgoffa ni o'r Brodyr Dardennes.

**"a haunting character study with strong visual appeal."** HOLLYWOOD REPORTER

**Enillydd Ymgais Gyntaf Orau yng Ngŵyl Ffilmiau Rwsiaidd Agored Sochi 2015**

F RATED



Nos Fercher 14 Mawrth 8yh

## **Sweet Country** (15)

Cyf: **Warwick Thornton**
Awstralia 2017 1awr 50munud Sam Neill, Bryan Brown, Hamilton Morris

Dyma stori Aboriginaidd glyfar, bwerus a diwylliannol sensitif sydd wedi'i lleoli mewn gwylltir trawiadol wrth i Ewropeaid orfodi eu ffyrdd ar y bobl a oedd yno gyntaf. Mae Fred, Cristion brwd, yn trin Sam a'i wraig Lizzie, yr Aboriginïaid sy'n gweithio iddo, yn gyfartal. Ond nid felly ei gymdogion. Mae anghydfod gyda Harry March, gŵr hiliol, gwallgof, yn gorfodi Sam a Lizzie i ddianc ar draws y 'diffeithdir' sy'n gartref iddynt. Daw Warwick Thornton â phersbectif cynhenid hanfodol i'r stori epig hudolus a phwysig hon.

**"fiercely powerful storytelling"** THE GUARDIAN

**Enillydd Gwobr Rheithgor Arbennig yng Ngŵyl Ffilmiau Venice 2017**



Nos Iau 15 Mawrth 6yh

# The Prince of Nothingwood (15)

Cyf: **Sonia Kronlund** Ffrainc/Yr Almaen, 2017, 1awr 27munud Dari gydag isdeitlau
Salim Shaheen, Sonia Kronlund

Stori afaelgar a doniol yn aml am greadigrwydd yn wyneb pob anhawster - dyma ddathliad llawen o Salim Shaheen, actor, cyfarwyddwr a chynhyrchydd mwyaf poblogaidd Afghanistan. Yn ddiwydiant ffilmiau un dyn yn Afghanistan, mae Shaheen wedi creu record o 110 o ffilmiau dros gyfnod o 30 mlynedd, er nad oes ganddo unrhyw gyllideb ar gyfer hynny ac er bod ei wlad mewn rhyfel parhaus. Dyma deyrnged ddyrchafol i'r carwr sinema Bollywood eofn ac egsentrig y mae ei bresenoldeb mawr yn ei wneud yn fwy addas i fod o flaen y camera na'r tu ôl iddo.

**"a crowd-pleasing winner that's educational, touching and hilarious. An infectious live-for-today energy permeates every frame."** SCREEN INTERNATIONAL




Nos Iau 15 Mawrth 8yh

# Wajib (tyst i'w gadarnhau)

Cyf: **Annemarie Jacir**
Palesteina 2017 1awr 36munud Arabeg gydag isdeitlau Mohammad Bakri, Saleh Bakri

Yn alltud yn Rhufain, mae Shadi yn dychwelyd adref i anrhydeddu traddodiad canrifoedd oed Nazareth o ddosbarthu gwahoddiadau priodas ei chwaer gyda llaw gyda'i dad Abu. Yn anochel, mae gwahaniaethau gwleidyddol a diwylliannol, a'r gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau, yn codi'u pen rhwng y ddau ond maent yn dod i ddeall ei gilydd. Dyma astudiaeth graff a hynod ddifyr o berthynas rhwng tad a mab, diolch yn bennaf i'r carisma a'r cynhesrwydd rhwng y tad a'r mab mewn bywyd go iawn.

**Enillydd Gwobr Arbennig am y Ffilm Orau yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Locarno 2017**



Nos Lun 19 Mawrth 7.30yh

# The Commuter (15)

Cyf: **Jaume Collet-Serra**
Ffrainc, UDA, Y DU 2018 1awr 45munud
Liam Neeson, Vera Farmiga, Sam Neill

Mae Michael, gwerthwr yswiriant, ar ei siwrnai ddyddiol am adref ar y trên ond, yn fuan iawn, mae'r siwrnai honno'n newid i fod yn un anarferol iawn. Ar ôl i ddieithryn dirgel gysylltu ag o, mae Michael yn cael ei orfodi i ddatgelu pwy yw teithiwr cudd ar y trên cyn y stop olaf. Wrth iddo weithio yn erbyn y cloc i ddatrys y dirgelwch, mae'n sylweddoli bod cynllun angheuol ar waith a'i fod wedi'i ddal, yn ddiarwybod iddo ef ei hun, mewn cynllwyn troseddol sy'n rhoi bywyd pawb ar y trên yn y fantol.





Nos Fercher 21 Mawrth 7.30yh

# Kaleidoscope (15)

Cyf: **Rupert Jones**
Y DU 2017 1awr 40munud
Toby Jones, Anne Reid, Sinead Matthews, Deborah Findlay

Wedi'i ryddhau o'r carchar yn ddiweddar, mae Carl, sy'n ddyn cwrtais tu hwnt, yn ceisio symud ymlaen gyda'i fywyd. Ond caiff ei ddechrau o'r newydd ei chwalu gan ailymddangosiad dirybudd ei fam awdurdodol, gan ddeffro trawma mawr yn ddwfn y tu mewn iddo.

Dyma ymgais gyntaf Rupert Jones i gyfarwyddo ac mae'n ffilm iasoer, seicolegol dynn a phryfociol sy'n astudio'r anallu i ddianc o berthynas ddinistriol ac yn gofyn: a yw'n bosib i ni ddianc rhag ein gorffennol?

**"Face crumpled, eyes darting, Jones captures the wounded humanity at the core of this psychological thriller."** TOTAL FILM

Nos Lun 26 Mawrth 7.30yh

## The Post (12A)

Cyf: **Steven Spielberg**
UDA 2017 1awr 56munud Meryl Streep, Tom Hanks, Sarah Paulson

Dyma ffilm sydd wedi'i hysbrydoli gan ddigwyddiadau go iawn. Katharine Graham oedd y cyhoeddwr benywaidd cyntaf gyda phapur newydd mawr yn America, The Washington Post. Gyda help y golygydd Ben Bradlee, aeth Graham ati i ddatgelu ymgais i gelu cyfrinachau'r llywodraeth. Gyda'i gilydd, byddent yn goresgyn eu gwahaniaethau, ac yn rhoi eu gyrfaoedd a'u rhyddid mewn perygl, er mwyn ceisio dod â gwirioneddau oedd wedi'u celu ers blynyddoedd maith i olau dydd.

**Named Best Film of 2017 by National Board of Review.**





Nos Fawrth 27 Mawrth 7.30yh

## Finding Your Feet (12A)

Cyf: **Richard Loncraine**
Y DU, Canada, Awstralia, UDA 2017 1awr 51munud Joanna Lumley, Timothy Spall, Imelda Staunton

Ar noswyl ei ymddeoliad, mae snob dosbarth canol beirniadol yn darganfod bod ei gŵr wedi bod yn cael perthynas y tu ôl i'w chefn gyda'i ffrind gorau ac mae'n cael ei gorfodi i symud i fyw at ei chwaer hŷn fohemaidd nad yw wedi bod mewn llawer o gysylltiad â hi ers peth amser. Mae'r chwaer honno'n byw ar stad gyngor ddinesig dlawd. Yn y lleoliad ymddangosiadol annhebygol hwnnw mae Sandra'n sylweddoli bod posib iddi ddod o hyd i ramant unwaith eto yn ei bywyd.

**"Wildly entertaining"** THE INDEPENDENT ★★★★★

# Taliesin a'r gymuned

Mae Taliesin yn ceisio cynnwys plant a phobl ifanc a'u hysbrydoli drwy brofiadau celfyddydol sy'n ysgogi'r dychymyg. Mae'r Ganolfan y Celfyddydau'n ymrwymedig i roi cyfle i ragor o bobl brofi'r gorau sydd gan y celfyddydau i'w gynnig.



**Dyddiau Dawns**
Mae gŵyl awyr agored flynyddol am ddim Taliesin, Dyddiau Dawns, yn cynnwys perfformiadau dawns cyffrous, doniol, athletig a hygyrch, gan gwmnau o bob rhan or DU, yn ogystal  rhai lleol.

Mae'r **Prosiect Dawns Cynradd** yn cynnwys ysgolion o ardaloedd Cymunedaun Gyntaf, gan roi cyfle i 200 o blant, gyda chymorth myfyrwyr dawns o Goleg Gŵyr, gynhyrchu sioe a gaiff ei pherfformio o flaen eu cyfoedion, eu rhieni ar cyhoedd.






# Y Neuadd Fawr Campws y Bae Prifysgol Abertawe


**Archebwch ar-lein** - www.taliesinartscentre.co.uk

**Archebwch dros y ffôn** - Ffoniwch Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr ar **01792 604900 / 01792 604999** Casglwch docynnau ar gyfer Digwyddiadau'r Neuadd Fawr yn y Neuadd Fawr ar nosweithiau'r perfformiadau.

**Oriau agor y Swyddfa Docynnau** - Dydd Llun - Dydd Gwener, 10yb - 5yh, Dydd Sadwrn, 10yb - 1yp ac o 2 awr cyn perfformiad gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Ceir ychydig cyfyngedig o leoedd parcio am ddim ar gyfer y Rhaglen Ddiwylliannol yn ogystal â maes parcio Talu ac Arddangos gerllaw, ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe.



# Gwybodaeth

## Archebu ar-lein

Archebwch unrhyw adeg o'r diwrnod gyda'n system archebu ar-lein newydd. Cliciwch ar y botwm 'Archebwch Nawr' ar ein gwefan. www.taliesinartscentre.co.uk

Anfonwch y manylion ynglŷn â faint o docynnau sydd eu hangen arnoch ac am ba ddigwyddiad (enw, dyddiad ac amser) ac os ydych yn derbyn unrhyw ostyngiad.

Ychwanegwch £1 at y cyfanswm os hoffech i ni bostio'ch tocynnau atoch. Sieciau'n daladwy i: Brifysgol Abertawe. Anfoner at: Canolfan y Celfyddydau Taliesin, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PZ

Ar gyfer digwyddiadau yn y Neuadd Fawr, anfonwch at: Y Neuadd Fawr, Campws y Bae, Ffordd Fabian, Abertawe, SA1 8EN

Archebwch i Taliesin drwy ffonio 01792 602060

Archebwch i Y Neuadd Fawr drwy ffonio 01792 604900 / 604999

## Oriau Agor

Mae ein Swyddfa Docynnau Taliesin ar agor o Dydd Llun - Gwener: 10am-5pm. Dydd Sadwrn: 10am-1pm & 1.30pm-4pm ac ar nosweithiau perfformiad tan 15 munud ar ôl dechrau y perfformiad.

Mae Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10am-5pm, Dydd Sadwrn 10am-1pm & 1.30pm-4pm ac am 2 awr cyn perfformiad ar nosweithiau a phenwythnosau.

## Ad-daliadau

Nid oes modd ad-dalu tocynnau. Mewn achosion brys gellir cyfnewid tocynnau am ddigwyddiad arall, os ydym yn derbyn y tocynnau o leiaf 24 awr cyn y perfformiad. Codir tâl o £1 yr un tocyn am y gwasanaeth hwn. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gymwys i Huriadau Preifat.

## Efallai na roddir mynediad i hwyr ddyfodiaid

## Llogi Taliesin

Mae Taliesin yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau gwych ar gyfer cynadleddau a defnydd preifat o bob math. I gael gwybodaeth am brisiau, neu i drafod dyddiadau posibl a sut i logi'r ganolfan, cysylltwch â Sybil Crouch, 01792 295491

## Cyfleusterau i bobl ag anghenion arbennig


Rhowch wybod i staff y swyddfa docynnau os oes gennych unrhyw ofynion penodol a byddwn yn barod i'ch helpu.

**Mae'r llyfryn tymhorol ar gael mewn print bras, neu yn ddigidol ar gais.**

## Cardiau Rhodd

Mae cardiau rhodd ar gael yn y Swyddfa Docynnau neu ar-lein ar gyfer holl ddigwyddiadau Taliesin a Neuadd Fawr.

**Efallai ni dderbynnir hwyrddyfodiad**



# Information

## Book online/post/phone

Book at your convenience with our online booking system. www.taliesinartscentre.co.uk

Send booking details. Please add £1 if you would like your tickets posted. Cheques made payable to: Swansea University.
For events at Taliesin, send to: Taliesin Arts Centre, Singleton Park, Swansea SA2 8PZ

For events at The Great Hall, send to: The Great Hall, Bay Campus, Fabian Way, Swansea SA1 8EN

Booking for Taliesin Arts Centre on 01792 602060

Booking for The Great Hall on 01792 604900 / 604999.

## Opening Hours

Taliesin Box Office is open Monday-Friday: 10am-5pm Saturday: 10am-1pm & 1.30pm-4pm and on performance evenings until 15 minutes after the performance begins.

Great Hall Box Office is open Monday-Friday 10am-5pm, Saturday 10am-4pm and from 2 hours prior to a performance during evenings and weekends, remaining open until 30 minutes after performance begins.

## Refunds

Tickets are not refundable. In the event of an emergency, tickets may be exchanged for an alternative event, only if we receive the tickets at least 24hrs before the performance. There is a charge of £1 per ticket for this service.

## Gift cards


Gift cards are available at the Box Office or online for all Taliesin and Great Hall events.

## Parking

There is limited free parking plus a Pay and Display car park nearby for cultural events at Swansea University's Bay Campus. There is free parking on evenings and weekends for cultural events at Taliesin Arts Centre, Singleton Campus.


## Facilities for customers with disabilities

Please inform the box office staff if you have any particular requirements and we will be happy to help.




**Seasonal brochure available in large print, or digitally on request.**

Latecomers may not be admitted



# perfformiadau byw

**Ionawr January**

25 In the Absence of Silence

**Chwefror February**

1 – 3 Woman of Flowers
4 The Railsplitters
9 Motionhouse Charge
16 - 17 Guys and Dolls
22 Louder is Not Always Clearer
23 Dogs Don't Do Ballet

**Mawrth March**

6 - 10 Hello Dolly
16 - 17 SU Dance Society Showcase
23 The Barber of Seville
24 Spirit of the Dragon
28 NPT College LIFT
29 Juan Martín

Clawr blaen: FRI 9 FEB **Motionhouse** Charge

# digwyddiadau darlledu

**Ionawr January**

16 Rigoletto (Fel Yn Fyw 12A)
19 A Woman of No Importance (U)
20 Young Marx (Fel Yn Fyw 15)

**Chwefror February**

28 Cat on a Hot Tin Roof (15)

**Mawrth March**

12 Carmen (Fel Yn Fyw 12A)
20 Lady Windermere's Fan (Fel Yn Fyw 12A)
22 Julius Caesar (Fel Yn Fyw 12A)

# sinema

**Ionawr January**

15 The Glass Castle (12A)
17 The Snowman (15)
22 Breathe (12A)
23 Ingrid Goes West (15)
24 Call Me By Your Name (15)
29 Happy End (15)

**Chwefror February**

5 The Killing of a Sacred Deer (15)
6 Marjorie Prime (12A)
7 The Florida Project (15)
19 Film Stars Don't Die in Liverpool (15)
20 Battle of the Sexes (12A)
21 Suburbicon (15)
26 Bill Viola: The Road to St Paul's (PG)
27 Three Billboards Outside Ebbing, Missouri (15)

**Mawrth March**

13 Heavenly Nomadic (tyst i'w gadarnhau)
13 The Square (15)
14 The Gulls (tyst i'w gadarnhau)
14 Sweet Country (15)
15 The Prince of Nothingwood (15)
15 Wajib (tyst i'w gadarnhau)
19 The Commuter (15)
21 Kaleidoscope (15)
26 The Post (12A)
27 Finding Your Feet (12A)

# cerddoriaeth a sgyrsiau (Y Neuadd Fawr)

**Ionawr January**

4 WNO Orchestra

**Chwefror February**

10 Nicholas Daniel and the Haffner Ensemble
24 Duo Kolarova-Møldrup
25 National Youth Jazz Orchestra

**Mawrth March**

4 The Wihan Quartet
11 Mark Swartzentruber
16 Y Sinffonia Gymreig a Cherddorfa Prifysgol Abertawe